Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

2.00pm, dydd Mawrth 23 Mawrth 2021
Cyfarfod Microsoft Teams

COFNODION

Yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Uwcharolygydd Gary Phillips	Heddlu Dyfed-Powys
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd Jan Curtice	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Menna Davies	Adran Gwaith a Phensiynau
Helen Roderick	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Athro Jean White	Llywodraeth Cymru

Yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Noelwyn Daniel	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jane Lewis	Cyngor Sir Caerfyrddin
Rebecca Llewhellin	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Jessica Svetz	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Beth Cossins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Amy Richmond-Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gary Jones	Cyngor Tref Llanelli

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynwyd y gwesteion. Hwn oedd cyfarfod olaf Jean White a Menna Davies, a byddai Julian Atkins yn gadael Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ddiwedd y mis. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ymddiheuriadau	
Enw	**Sefydliad**
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huw Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Y CAMAU GWEITHREDU	
Ysgrifennu at yr aelodau oedd yn gadael y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddiolch am eu cynrychiolaeth.	Tîm Cynorthwyo BGC

2. Cofnodion a Materion yn Codi

2 Chwefror 2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

6. Ffocws ar flaenoriaethau newydd – amlinelliad o'r trefniadau

Canolfannau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref

Dywedodd Noelwyn Daniel fod y Gweithgor wedi cyfarfod i drafod y ffyrdd newydd o weithio a'r cyfleoedd o ran y Canolfannau Canol Tref. Y sefydliadau a oedd yn rhan o hyn ar hyn o bryd oedd Coleg Sir Gâr, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Cytunwyd ar siarter eang a set o egwyddorion a rhoddwyd amlinelliad byr. Byddai'r cyfarfod nesaf ganol mis Ebrill yn canolbwyntio ar y tair prif dref a nodwyd ym mhrosiect y 10 Tref, i nodi asedau ym mhob ardal a'r potensial ar gyfer cydweithio.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ynghylch y Canolfannau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref	Noelwyn Daniel
Trafod cynrychiolaeth y Drindod Dewi Sant ar y Canolfannau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref	Barry Liles / Andrew Cornish
Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Canolfannau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref mewn cyfarfod yn y dyfodol	Noelwyn Daniel

3. Y Diweddaraf am Ddysgu a Sgiliau

Rhoddodd Jane Lewis gyflwyniad a roddai sylw i lefelau'r gweithwyr ar ffyrlo, lefelau'r hawlwyr, y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth, dileu swyddi, data swyddi gwag a gofynion sgiliau. Roedd y prif ganfyddiadau ynghylch sgiliau fesul sector wedi dangos galw am sgiliau TG ar draws pob sector oherwydd y ffyrdd newydd o weithio. Byddai'r adroddiad nesaf

i Lywodraeth Cymru ganol mis Mai, a byddai'n cynnwys sgiliau newydd ac yn amlinellu'r hyn oedd yn digwydd yn y farchnad.
Cafwyd trafodaeth ynghylch sgiliau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad ond a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad megis gyrwyr HGV, logisteg, technoleg drôn a phrentisiaethau.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Rhoi diweddariad ar Ddysgu a Sgiliau mewn cyfarfod yn y dyfodol	Jane Lewis
Trafod cyfleoedd ar gyfer Prentisiaethau Peirianneg	Huwel Manley / Andrew Cornish

4. Y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol: Diweddariad ynghylch Gorllewin Cymru Iachach

Rhoddodd Martyn Palfreman a Rebecca Llewhellin gyflwyniad ar Raglen Drawsnewid Gorllewin Iachach Cymru, yn enwedig y Rhaglenni 'Gofal Rhagweithiol trwy Gymorth Technoleg' (Connect) a 'Creu Cysylltiadau i Bawb'.

Roedd rhaglen Connect yn darparu gofal rhagweithiol i bobl, gan ddefnyddio technoleg briodol i hyrwyddo a chefnogi rheoli cyflyrau cronig, lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a defnyddio gwasanaethau brys. O ganlyniad i Covid-19 roedd dros 2,000 o bobl wedi ymuno â'r rhaglen rhwng Mawrth 2020 a Chwefror 2021, roedd 12,030 o alwadau rhagweithiol wedi'u gwneud ac roedd 42,152 o sgyrsiau monitro galwadau wedi bod gyda chleientiaid; yr oedd 7% ohonynt wedi'u hatgyfeirio ar gyfer asesiadau statudol. Y blaenoriaethau ar gyfer 2021-22 yw ehangu'r rhaglen er mwyn cefnogi mwy o gleientiaid ar draws y rhanbarth, datblygu cynllun cynaliadwyedd effeithiol ar gyfer y rhaglen, ac ymgysylltu â gwasanaethau statudol a darparwyr eraill i gynyddu atgyfeiriadau i Connect ac oddi wrth Connect.

Mae Creu Cysylltiadau i Bawb yn ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu iechyd a llesiant. Arweiniodd Covid-19 at ymgysylltu'n ddigidol mewn dull oedd yn canolbwyntio ar unigolion. Darparwyd yr hyn a gyflawnwyd a'r canlyniadau hyd yn hyn, a oedd yn cynnwys lansio Platfform Connect yn gyflymach, addewidion caredigrwydd ar y wefan cysylltu â charedigrwydd, cyllid grant i 11 o brosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, gwirfoddolwyr yn cyfrannu at ddarparu gweithgareddau cymunedol a sefydlu Canolfannau Gweithredu Lleol. Y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd ymestyn y defnydd o'r platfformau Connect, canolbwyntio ar sefydliadau a'r gweithlu ar gyfer Cysylltu â Charedigrwydd, ymgysylltu â Connector Plus, meithrin sgiliau a hyder, ailsefydlu'r Canolfannau Gweithredu Lleol a chymell gwirfoddoli.

Roedd ap Cysylltu â Llesiant wedi'i ddatblygu a byddai'n mynd yn fyw ar 1 Ebrill.

Cafodd y ddau eu llongyfarch ar y gwaith hyd yn hyn a chafwyd trafodaeth ynghylch ymgysylltu.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Gwneud cysylltiad rhwng Martyn Palfreman a Mydrian Harries i drafod ymgysylltiad y Gwasanaeth Tân ac Achub o safbwynt Gofal Cartref/Diogelwch	Kevin Jones

Ystyried sut y gellir ymgysylltu a chefnogi gwaith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol	Pawb

5. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin - y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - Prosiect Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus: Adroddiad Caffael CLES

Darparwyd trosolwg gan Gwyneth Ayers ynghylch y ddwy sesiwn a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf, un yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol a'r llall yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gadwyn cyflenwi bwyd leol. Roedd y sesiynau wedi denu llawer o ddiddordeb. Roedd y cyllid yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2021; fodd bynnag roedd trafodaethau'n parhau ynghylch parhau ag ail gam y prosiect. Cafodd argymhellion penodol o'r adroddiad CLES eu cyflwyno i gytuno arnynt mewn egwyddor, ond gan fod yr aelod o'r Bwrdd Iechyd wedi gadael y cyfarfod, gan adael y BGC heb gworwm, trefnwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu drwy e-bost i'w gymeradwyo gan yr aelodau.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd cefnogaeth ar ffurf £25,000 wedi'i rhoi i ddau brosiect – prosiect Seilwaith Gwyrdd a oedd yn cwmpasu Castellnewydd Emlyn a Lôn Jackson yng Nghaerfyrddin, a phrosiect plannu coed a gwella cynefin dan arweiniad y saith cyngor tref a chymuned. Roedd y fenter plannu coed wedi'i hymestyn i gynnwys gwella cynefin fel blychau nythu, gan elwa ar y tanwariant ar y prosiect Seilwaith Gwyrdd. Roeddid yn disgwyl cadarnhad ynghylch a fyddai cyllid ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Prosiect Cronfa Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws

Mae'r porth ar-lein a hyfforddiant digidol yn datblygu'n dda.

Cynllun Gwaith

Mae'r cynllun gwaith yn ddogfen fyw a darperir diweddariadau mewn print trwm.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Adroddiad CLES i'w ddosbarthu i'w gymeradwyo gan yr aelodau.	Tîm Cynorthwyo BGC

7. Y Diweddaraf am Asesu Llesiant

Roedd yr Asesiad Llesiant i'w gyhoeddi erbyn 5 Mai. Roedd yr Aelodau wedi cytuno o'r blaen i gefnogi dull rhanbarthol ac roedd gweithgor wedi'i sefydlu i ddatblygu hyn. Roedd trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal lle roedd ystyriaeth wedi'i rhoi i adborth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru ar yr asesiad diwethaf. Roedd llythyr ar y cyd wedi dod i law gan y Comisiynydd a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a roddai ddisgwyliadau clir. Byddai hon yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y BGC yn y dyfodol.

8. Unrhyw Fater Arall

Gweithdy adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Cytunwyd bod dyddiad yn cael ei drefnu ar gyfer y gweithdy a bod y cynnwys hefyd yn ymdrin â phynciau eraill fel y bo'n briodol i lywio'r Asesiad Llesiant.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd

Cyflwynwyd ymateb i ymholiad y Pwyllgor ar sut roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei hymgorffori. Roedd adroddiad y Pwyllgor wedi'i gyhoeddi yr wythnos diwethaf a byddai'n cael ei ddosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth.

Cyfleoedd ariannu Llywodraeth y DU

Roedd Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dwy gronfa yr wythnos diwethaf: *Levelling Up* a *Community Renewal.* Roedd yr awdurdod lleol wedi'i benodi fel y sefydliad arweiniol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, â photensial am hyd at werth £3m o gynigion i'w cyflwyno ar gyfer y gronfa adnewyddu cymunedau. Gofynnwyd i bartneriaid y BGC fod yn rhan o grŵp cynghori a fyddai'n ystyried prosiectau, a chyflwyno ceisiadau eu hunain. Byddai angen i brosiectau ganolbwyntio ar sgiliau, cymunedau, lleoedd a busnesau lleol, a chymorth i gyflogaeth.

Cynghorau Tref a Chymuned

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned, roedd wedi'i gynnig bod digwyddiad blynyddol yn cael ei gynnal gyda'r BGC i nodi arfer da ac i rannu adroddiadau blynyddol. Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor gan y BGC. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi maes o law.

Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Roedd Cynllun Rheoli ar gyfer y parc yn cael ei lunio ac roedd ymgynghori'n digwydd ar hyn o bryd ynghylch dogfen gweledigaeth ac amcanion.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Dosbarthu copi o adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd	Tîm Cynorthwyo BGC
Darparu rhagor o wybodaeth a threfnu cyfarfod i drafod cyfleoedd ariannu Llywodraeth y DU	Tîm Cynorthwyo BGC
Trefnu dyddiad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cynghorau Tref a Chymuned	Tîm Cynorthwyo BGC
Cyflwyno Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn un o gyfarfodydd y dyfodol	Tîm Cynorthwyo BGC